## YR ATODLEN

### TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**20.** Brics glo Fireglo, a weithgynhyrchir gan Les Combustibles de Normandie yn Caen, Ffrainc, a chan La Société Rouennaise de Défumage yn Rouen, Ffrainc—

(a) sy'n cynnwys llychau Cymreig wedi'u golchi (sef rhyw 92 y cant o'r cyfanswm pwysau) a rhwymwr pyg glo (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses sy'n cynnwys rholio-wasgu a thriniaeth wres ar ryw 330°C;

(c) sy'n ofoidau â thair llinell ar un ochr a'r ochr arall yn llyfn ac sy'n pwyso 30 gram ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 0.8 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.